Archwiliad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri
Snowdonia Local Development Plan Revision Examination

Richard Duggan BSc / BGw (Anrh) Dip CT/TP MRTPI
Arolygydd Cynllunio / Planning Inspector
Rhian Randall: Swyddog Rhaglen / Programme Officer Swyddfa'r Parc Cenedlaethol / National Park Office
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF

Ffôn / Tel 01766 772203
swyddogrhaglen@eryri.llyw.cymru
programmeofficer@snowdonia.gov.wales

15 Mai 2018

Llythyr gan y Swyddog Rhaglen i Gynrychiolwyr - Anfonwyd trwy e-bost

Annwyl Syr/Fadam,

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Archwiliad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â'r Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031 sydd wedi'i gyflwyno i gael ei archwilio yn annibynnol. Bu'r Awdurdod yn ymgynghori ar y Cynllun Adnau rhwng 5 Gorffennaf a 30 Awst 2017 a'r Newidiadau Ffocws rhwng 16 Mawrth a 27 Ebrill 2018 ac yn ôl fy nghofnodion rydych chi / eich sefydliad wedi cyflwyno sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori uchod.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i gyflwyno fy hun fel Swyddog Rhaglen sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r Arolygydd gyda phob agwedd o weinyddiaeth yr Archwiliad a'r gwrandawiadau, gan weithio'n annibynnol i'r Awdurdod.

Mae gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi penodi **Mr. Richard Duggan BGw (Anrh) BSc (Hons) DipCT /TP MRTPI** o Arolygiaeth Cynllunio Cymru i ymgymryd â'r Archwiliad annibynnol i asesu cadernid y Cynllun. Bydd yr Archwiliad yn cynnwys cyfres o Wrandawiadau cyhoeddus ac fe'u trefnwyd fel eu bod **yn dechrau ar ddydd Mawrth 17eg Gorffennaf 2018.**

Cyfranogi mewn Gwrandawiadau a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gymryd rhan
Mae'r Arolygydd wedi cyhoeddi Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Cyfranogwyr [DA011], ynghyd â Rhaglen ddrafft gychwynnol ar gyfer y Gwrandawiadau [DA012] a **Materion & Phethau sy'n Codi** [DA013] ac mae'r rhain ar gael i'w gweld / lawrlwytho ar wefan 'Dogfennau'r Archwiliad' yn y fan hon:- www.eryri.llyw.cymru/archwiliad. Sylwer bod rhaglen ddrafft y Gwrandawiadau yn ddogfen 'fyw' a bydd yn ddarostyngedig i newid - dylai cynrychiolwyr wirio'r wefan yn rheolaidd i weld diweddariadau / newidiadau i'r rhaglen. Pe baech yn cael unrhyw anhawster wrth geisio cael mynediad at y wefan neu wrth lawrlwytho'r dogfennau, cysylltwch â mi (manylion uchod) a gallaf naill ai anfon e-bost neu gopïau papur atoch.

Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi'r Gwrandawiadau, ond dim ond y rhai sydd wedi gwneud sylwadau perthnasol ar adeg yr ymgynghoriad yn ystod y cam Adnau fydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y Gwrandawiadau. **Cadarnhewch unwaith eto erbyn Dydd Gwener y 1af o Fehefin 2018 os ydych am siarad yn y Gwrandawiad ai peidio.** Er fy mod i'n ymwybodol eich bod chi eisoes wedi darparu'r wybodaeth hon i'r Awdurdod, mae'n HANFODOL o ran rhaglennu'r ymgynghoriad fy mod i'n ymwybodol o'ch sefyllfa bresennol cyn gynted â phosib. Gwerthfawrogir eich cydweithrediad. Os nad ydych yn ymateb erbyn y dyddiad hwn, tybir eich bod yn fodlon i ni ymdrin â'ch barn fel sylwadau ysgrifenedig, waeth beth yr ydych wedi'i nodi yn eich sylwadau gwreiddiol. Mae'r Arolygydd wedi gofyn i mi dynnu'ch sylw at y ffaith bod y sylwadau ysgrifenedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â'r sylwadau a wneir ar lafar yn ystod y Gwrandawiadau.

Dylai unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig pellach fynd i'r afael â'r Materion a'r Pethau sy'n Codi sydd i'w Harchwilio a nodwyd gan yr Arolygydd. Mae'n rhaid i'r Awdurdod a'r rhai sy'n gwneud sylwadau ar y pynciau hyn ymateb i'r cwestiynau hyn mewn datganiad a ddylai gael ei gyflwyno ddim hwyrach na **dydd Iau yr 21ain o Fehefin 2018**. Darperir cyngor pellach ar gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig yn y Nodiadau Cyfarwyddyd. Mae'n **bwysig** bod yr holl gyfranogwyr yn ymgyfarwyddo â'r nodiadau hyn.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydych eisoes wedi datgan i'r Awdurdod eich iaith ddewisol ar gyfer derbyn sylwadau, ond os ydych yn dymuno siarad yn y sesiynau Gwrandawiad a fyddech gystal â chadarnhau eich iaith ddewisol. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael yn y Gwrandawiadau.

Gwefan a Llyfrgell yr Archwiliad
Bydd gwefan yr Archwiliad www.eryri.llyw.cymru/archwiliad yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a bydd yn darparu ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer y dogfennau a gyflwynir, y broses archwilio a'r Gwrandawiadau. Bydd y dogfennau perthnasol a gyflwynir gan yr Arolygydd, y Swyddog Rhaglen, yr Awdurdod a phartïon eraill yn cael eu cyhoeddi yn adran Dogfennau'r Archwiliad ar y wefan a chedwir cofnod yn y Llyfrgell Archwilio. Gwiriwch wefan yr Archwiliad yn rheolaidd am unrhyw wybodaeth ddiweddar a / neu newidiadau i'r amserlen / rhaglen.

Dylai unrhyw un sydd am weld y dogfennau yn y Llyfrgell Archwilio gysylltu â mi a byddaf yn hapus i'ch helpu.

Dylai unrhyw un sydd ag anghenion neu ofynion arbennig yn ystod yr Archwiliad gysylltu â mi cyn gynted â phosib. Bydd system ddolen glyw ar gael yn y Gwrandawiadau.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r Archwiliad, fel arall edrychaf ymlaen at glywed gennych erbyn y 1af o Fehefin i gadarnhau a ydych am fynychu / neu gymryd rhan yn y Gwrandawiadau ai peidio.

Yn gywir,

Rhian Ll. Randall

Rhian Randall
Swyddog Rhaglen

----------✂----------✂----------

Dychweler i: Swyddog Rhaglen Cynllun Datblygu Lleol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd. LL48 6LF NEU trwy E-bost: *swyddogrhaglen@eryri.llyw.cymru*

Enw'r Cynrychiolydd:		
Sefydliad:		
Cyfeiriad E-bost:		
Cais i siarad yn y Gwrandawiad/au:	IA	NA
Iaith ddewisol yn y Gwrandawiad/au:	Cymraeg	Saesneg